Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Ward M a Ward Oakwood, Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
## Dyddiad yr arolygiad: 17 a 18 Ionawr 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 20 Ebrill 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



ISBN Digidol 978-1-80535-840-4
© Hawlfraint y Goron 2023

Gwelsom fod y staff yn rhoi profiad cadarnhaol ar y cyfan i'r cleifion a'u perthnasau pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Ar y cyfan, roedd y cleifion a'u perthnasau yn canmol y ffordd roedd gofal a thriniaethau wedi'u darparu.

Roedd y staff wedi gwneud ymdrech i gynnal amgylchedd a oedd yn addas ar gyfer plant, pobl ifanc a'u perthnasau. Fodd bynnag, roedd yr amgylchedd hen ffasiwn yn cyfyngu ar hyn yn ogystal â'r diffyg lle addas nad yw'n adlewyrchu gwasanaeth pediatrig modern.

Roedd y staff yn rhoi lefel ymatebol ac amserol o ofal a thriniaeth i'r cleifion ar y cyfan. Gwnaethant ddangos gwybodaeth dda mewn perthynas â darparu gofal priodol sy'n benodol i anghenion plant a chleifion ifanc.

Dangosodd y staff y gwnaethom arsylwi arnynt a rhyngweithio â nhw ffocws clir ar y claf ac roeddent yn awyddus i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion a'u perthnasau.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 17 a 18 Ionawr 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Oakwood – ward feddygol ag 17 o welyau, gan gynnwys 4 gwely dibyniaeth uchel
- Ward M – ward lawfeddygol â 24 o welyau

Ni wnaethom adolygu'r Uned Asesu Pediatrig fel rhan o'r arolygiad hwn, ond gwnaethom wahodd y staff i gwblhau un o holiaduron AGIC oherwydd bod y staff yn cyflenwi yn yr adrannau hyn yn aml.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod y staff yn rhoi profiad cadarnhaol ar y cyfan i'r cleifion a'u perthnasau pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Ar y cyfan, roedd y cleifion a'u perthnasau yn canmol y ffordd roedd gofal a thriniaethau wedi'u darparu.

Roedd y staff wedi gwneud ymdrech i gynnal amgylchedd a oedd yn addas ar gyfer plant, pobl ifanc a'u perthnasau. Fodd bynnag, roedd yr amgylchedd hen ffasiwn yn cyfyngu ar hyn yn ogystal â'r diffyg lle addas nad yw'n adlewyrchu gwasanaeth pediatrig modern.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhoi amserlen i AGIC ar gyfer y gwaith adnewyddu arfaethedig
- Ystyried sut i gyfleu proses CAMHS yn effeithiol i'r cleifion a'u perthnasau.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd garedig a pharchus
- Yn gyffredinol, roedd dulliau da ar waith i'r cleifion a'u perthnasau roi adborth ac i'r staff weithredu ar yr adborth hwn.

**Dywedodd y cleifion a'u perthnasau wrthym:**

*"Mae'r gofal yn dda iawn"*

*"Roedd y nyrsys chwarae a'r holl nyrsys yn dda, maent yn eistedd ac yn sgwrsio â ni"*

*"Mae'r nyrsys wedi bod yn gyfeillgar iawn ac wedi gwneud i fi deimlo'n gyfforddus"*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

- Gwelsom fod y staff yn rhoi lefel ymatebol ac amserol o ofal a thriniaeth i'r cleifion ar y cyfan. Dangosodd y staff wybodaeth dda mewn perthynas â darparu gofal priodol sy'n benodol i anghenion plant a chleifion ifanc.

  Rydym wedi gwneud sawl argymhelliad i'r gwasanaeth wella'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn llwyr.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod modd glanhau pob ward yn effeithiol ac y gweithredir yn amserol ar y camau a nodir mewn archwiliadau o brosesau atal a rheoli heintiau
- Cryfhau agweddau ar gadw cofnodion mewn perthynas â monitro hylif, rhoi meddyginiaeth a gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn
- Sicrhau bod hyfforddiant a gwybodaeth y staff mewn perthynas â sepsis yn cael eu cryfhau, gan gynnwys ystyried rhoi adnodd sepsis ar waith
- Myfyrio ar ei brosesau ar gyfer nodi ac uwchgyfeirio claf sy'n sâl er mwyn gwella'r dulliau presennol.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y staff yn esbonio materion clinigol i'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd glir a phriodol i'w hoedran
- Dangosodd y staff wybodaeth dda mewn meysydd, gan gynnwys atal a rheoli heintiau a rheoli meddyginiaethau
- Roedd prosesau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer rheoli materion diogelu.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

- Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y wardiau, a chymerodd pob aelod o'r staff ran gadarnhaol yn y broses arolygu. Dangosodd y staff y gwnaethom arsylwi arnynt a rhyngweithio â nhw ffocws clir ar y claf ac roeddent yn awyddus i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion a'u perthnasau.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Myfyrio ar ymatebion a sylwadau'r staff a roddir yn y prif adroddiad.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Ar y cyfan, roedd y staff yn cefnogi'r cymorth a ddarperir gan reolwyr.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion y rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

